

Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
Dydd Mawrth, 5 Tachwedd 2013

Amser y cyfarfod:
13:30

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Agenda (159)v4

1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

[Gweld y cwestiynau](#)

2 Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon (45 munud)

[Gweld y cwestiynau](#)

3 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)

[Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)

4 Datganiad gan y Prif Weinidog: Ymateb cychwynnol Llywodraeth y DU i adroddiad comisiwn Silk ar ddiwygio trefniadau ariannu Cymru (45 munud)

Dogfen Ategol

[Datganiad Ysgrifenedig – Ymateb cychwynnol Llywodraeth y DU i adroddiad comisiwn Silk ar ddiwygio trefniadau ariannu Cymru](#)

5 Datganiad gan y Gweinidog Tai ac Adfywio: Cynnydd o ran Troi Tai'n Gartrefi (30 munud)

Dogfen Ategol

[Troi tai'n gartrefi](#)

6 Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: Teithio at Ddyfodol Gwell – Fframwaith Gweithredu a Chynllun Cyflenwi ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr (30 munud)

7 Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Creu Cymwysterau Cymru (30 munud)

8 Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Y Cyfleoedd a'r Heriau y mae'r Sector Coedwigaeth yng Nghymru yn eu Hwnebu (30 munud)

Dogfen Ategol

[Coetiroedd i Gymru – ein strategaeth ar gyfer coetiroedd a choed yng Nghymru](#)

9 Dadl: Cymorth i'r Lluoedd Arfog yng Nghymru (60 munud)

NDM5343 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1.Yn nodi:

a) gwaith Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn cefnogi aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog;

b) y Pecyn Cymorth diweddaraf gan Lywodraeth Cymru i Gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru;

c) y gwaith sy'n mynd rhagddo drwy Grŵp Arbenigol Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth ar Anghenion Cymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru.

Mae Pecyn Cymorth diweddaraf Llywodraeth Cymru i Gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru ar gael o'r ddolen ganlynol:

<http://wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/safety/armedforces/packagesupport/?skip=1&lang=cy>

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Gwelliant 1 – William Graham (Dwyrain De Cymru)

Cynnwys is-bwynt a) newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

pwysigrwyd Dydd y Cofio o ran ein hatgoffa am aberth yr unigolion hynny sydd

wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog a'r rheiny yn y boblogaeth sifil a gollodd eu bywydau neu a brofodd newid diwrthdro yn eu bywydau yn sgil gwrthdaro ers 1914;

Gwelliant 2 – William Graham (Dwyrain De Cymru)

Cynnwys is–bwynt a) newydd ac ail–rifo yn unol â hynny:

bod Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf ar y gorwel a bod angen diogelu ein Cofebion Rhyfel;

Gwelliant 3 – William Graham (Dwyrain De Cymru)

Cynnwys is–bwynt b) newydd ac ail–rifo yn unol â hynny:

ac yn gresynu bod Llywodraeth Cymru wedi methu â chyflwyno Cynllun Cerdyn i Gyn–filwyr, yn unol â'r addewid a wnaed 2 flynedd yn ôl.

Gwelliant 4 – William Graham (Dwyrain De Cymru)

Ychwanegu is–bwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

anghenion cymhleth ac amrywiol Cymuned y Lluoedd Arfog.

Gwelliant 5 – William Graham (Dwyrain De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y gwaith rhagorol y mae mudiadau ieuenctid gwirfoddol cenedlaethol a noddur gan y Weinyddiaeth Amddiffyn yn ei wneud o ran ymgysylltu â phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymgorffori'r gwaith hwn yn ei fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid.

Gwelliant 6 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu Cynllun Grantiau'r Cyfamod Cymunedol, gwerth £30 miliwn, y mae Llywodraeth y DU wedi'i lansio ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael i gymunedau lleol gryfhau'r cyswllt a'r gyd–ddealltwriaeth rhwng aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog a'r gymuned ehangach y maent yn byw ynddi.

Gwelliant 7 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod digon o gapasiti o fewn y GIG i alluogi aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru sy'n dioddef o Anhwyllder Straen Wedi Trawma gael gofal priodol, gan gynnwys mynediad at arbenigwyr a chymorth brys a seibiant digonol.

Gwelliant 8 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru yn cael y driniaeth feddygol flaenoriaethol y mae ganddynt hawl iddi drwy drefnu bod Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru yn rhoi dull cyson ar waith ar gyfer adnabod aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog; i sicrhau bod aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog yn ymwybodol o'r hyn y mae ganddynt hawl iddo; ac i fonitro'r gwaith o ddarparu'r hawl honno.

Gwelliant 9 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi amserlen ar gyfer datblygu polisi comisiynu cam wrth gam ar gyfer darparu aelodau prosthetig o'r corff i Gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru a gwneud gwelliannau i'r gwaith o gynllunio, trefnu a darparu gwasanaethau prosthetig yn gyffredinol.

Gwelliant 10 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru yn sefydlu perthynas â Chanolfan Adferiad Meddygol y Gwasanaeth Amddiffyn yn Headley Court.

Cyfnod Pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 6 Tachwedd 2013

Eitem 1

Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 31 Hydref 2013 i'w hateb ar 5 Tachwedd 2013

R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd): Pa gamau y mae'r Prif Weinidog yn bwriadu eu cymryd i wella economi de-ddwyrain Cymru?

OAQ(4)1308(FM)

2. Janet Finch-Saunders (Aberconwy): Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i atal cam-werthu cynnyrch gwarchod rhag risgiau cyfraddau llog i fusnesau bach? OAQ(4)1313(FM)

3. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wersi ar ddiogelwch y rhyngrwyd mewn ysgolion?

OAQ(4)1300(FM)

4. Rhun ap Iorwerth (Ynys Mon): Beth ydy pwerau Llywodraeth Cymru ar faterion yn ymwneud a chofrestru tir? OAQ(4)1309(FM)W

5. Sandy Mewies (Delyn): A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i leihau salwch resbiradol yng Nghymru? OAQ(4)1311(FM)

6. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer chwaraeon yng Nghymru am y deuddeg mis nesaf? OAQ(4)1296(FM)

7. Keith Davies (Llanelli): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am broblemau denu a chadw arbenigwyr meddygol yn ysbytai Bwrdd Iechyd Hywel Dda? OAQ(4)1310(FM)W
8. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddiogelwch y ffordd ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)1314(FM)
9. Eluned Parrott (Canol De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatgan beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gael pobl ddi-waith yn ôl i weithio? OAQ(4)1312(FM)
10. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd): Pryd y mae'r Prif Weinidog yn bwriadu ymweld yn swyddogol a'r Alban i drafod ei fwriad i sefydlu 'Confensiwn Cyfansoddiadol' yn y DU? OAQ(4)1302(FM)W
TYNNWYD YNOL
11. Nick Ramsay (Mynwy): Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella economi Cymru? OAQ(4)1299(FM)
12. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru): Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau diogelwch gweithwyr iechyd yng Nghymru? OAQ(4)1304(FM)
13. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu gwyddorau bywyd yng Nghymru? OAQ(4)1303(FM)
14. Darren Millar (Gorllewin Clwyd): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol y GIG yng Nghymru? OAQ(4)1298(FM)
15. Andrew RT Davies (Canol De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd tuag at gyhoeddi ystadegau perfformiad ar ardaloedd menter yng Nghymru? OAQ(4)1307(FM)

Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 29 Hydref 2013 i'w hateb ar 5 Tachwedd 2013

R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Gofyn i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon

1. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid i'r celfyddydau yng Nghymru? OAQ(4)0084(CS)W
2. Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Arolwg ar Chwaraeon Ysgol Chwaraeon Cymru? OAQ(4)0074(CS)
3. William Graham (Dwyrain De Cymru): A oes gan y Gweinidog gynlluniau i wella rôl Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru? OAQ(4)0069(CS)
4. Julie James (Gorllewin Abertawe): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bwysigrwydd digwyddiadau diwylliannol, megis digwyddiad WOMEX yn ddiweddar, i Gymru? OAQ(4)0083(CS)
5. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fynediad y cyhoedd i gefn gwlad? OAQ(4)0080(CS)
6. Andrew RT Davies (Canol De Cymru): Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella rhagoriaeth mewn chwaraeon yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)0070(CS)
7. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd): Pa waith y mae eich adran yn ei wneud i hyrwyddo chwaraeon ymhlith pobl hŷn? OAQ(4)0073(CS)
8. Eluned Parrott (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu hyrwyddo chwaraeon cyn rôl Caerdydd fel prifddinas chwaraeon Ewrop yn 2014? OAQ(4)0075(CS)
9. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid i chwaraeon yng Nghymru? OAQ(4)0085(CS)W
10. William Graham (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r cymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i hyrwyddo amgueddfeydd lleol? OAQ(4)0068(CS)

11. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynorthwyo chwaraeon amatur ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)0076(CS)

12. Alun Ffred Jones (Arfon): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfraniad WOMEX at gynyddu proffil diwylliannol Cymru yn rhyngwladol? OAQ(4)0072(CS)W

13. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd): Pa drafodaethau a gafodd y Gweinidog â Cadw ynglŷn â chwifio baneri yng Nghestyll Cricieth a Harlech? OAQ(4)0077(CS)W TYNNWYD YNOL

14. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw adolygiadau a wnaed ers 2005 mewn perthynas â Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000? OAQ(4)0078(CS)

15. Nick Ramsay (Mynwy): A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r hyn y mae'n ei wneud i ddiogelu safleoedd hanesyddol yng Nghymru? OAQ(4)0071(CS)

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dydd Mawrth 12 Tachwedd a dydd Mercher 13 Tachwedd 2013

Dydd Mawrth 19 Tachwedd a dydd Mercher 20 Tachwedd 2013

Dydd Mawrth 26 Tachwedd a dydd Mercher 27 Tachwedd 2013

Dydd Mawrth 12 Tachwedd 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Prif Weinidog: Y Gynhadledd Fawr – y camau nesaf (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth: Paratodau ar gyfer Tywydd y Gaeaf (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Adolygiad o'r Cyllid sydd ar gael i Fusnesau Bach a Chanolig yng Nghymru: Yr Ail Adroddiad (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: Parhad a Newid – Adnewyddu'r Berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yng Nghymru (30 munud)
- Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 (15 munud)
- Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 (15 munud)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Archwilio ac Atebolrwydd Lleol (15 munud)
- Dadl: Cynlluniau'r GIG a Gwasanaethau Cymdeithasol i fod yn Barod ar gyfer y Gaeaf (60 munud)

Dydd Mercher 13 Tachwedd 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Tai ac Adfywio (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Trafodaeth ar Adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i Bresenoldeb ac Ymddygiad (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl fer – Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed) (30 munud)

Dydd Mawrth 19 Tachwedd 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Tai ac Adfywio: Cyflwyno'r Bil Tai (Cymru) (60 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Y wybodaeth ddiweddaraf am Ddinas–ranbarthau (30 munud)
- Gorchymyn Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 (Diwygio) (Cymru) 2013 (15 munud)
- Dadl ar Gyllideb Ddrafft 2014–15 (120 munud)
- Dadl ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2012–13 (60 munud)

Dydd Mercher 20 Tachwedd 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Cynnig i gymeradwyo Cyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2014–15 (30 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) (60 munud)

Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil. Ar ddiwedd Cyfnod 3 caiff yr Aelod sy'n gyfrifol gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47.

- Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) (5 munud)
- Dadl Fer – Keith Davies (Llanelli) (30 munud)

Dydd Mawrth 26 Tachwedd 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Cynllun Gweithredu Strategol ynghylch y Môr a Physgodfeydd (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth: Cynnydd o ran Cyflwyno'r Strategaeth Hawl i fod yn Ddiogel (30 munud)

Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod y ddwy eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân:

- Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013 (15 munud)
- Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 (15 munud)

- Gorchymyn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (Addasu Deddfiadau a Darpariaethau Eraill) 2013 (15 munud)

Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod y ddwy eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân:

- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Gofal (15 munud)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol mewn perthynas â'r Bil Gofal (15 munud)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol mewn perthynas â'r Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlisma o ran yr eithriad ASBO (15 munud)
- Dadl: Y manteision i Gymru o ran parhad aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd (60 munud)

Dydd Mercher 27 Tachwedd 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (120 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Gwyn Price (Islwyn) (30 munud)
- Dadl Fer – Julie James (Gorllewin Abertawe) (30 munud) – Ailamserlennwyd o 25 Medi